CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GWASANAETHAU TECHNEGOL

DYDD Mercher, 14 Medi 2016

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
J. McEvoy, Rheolwr diogelwch y ffyrdd a traffig
S. Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 15FED GORFFENNAF 2016
PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 15fed Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.

3. GWRTHWYNEBIADAU I ORCHYMYN ARFAETHEDIG SEF GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (CAERFYRDDIN) (CYFYNGU AR AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD (AMRYWIAD RHIF 15)
Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion y Cyngor i wneud Gorchymyn a fyddai'n amrywio Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 15) fel y gallai gynnwys amrywiol gyfyngiadau newydd ar hyd nifer o briffyrdd yng Nghaerfyrddin, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law i'r cynigion oddi wrth yr ymgyngoreion statudol, ond er hynny roedd pedwar sylw wedi dod i law oddi wrth y cyhoedd, fel y manylwyd yn Atodiad 3 i'r adroddiad ynghyd ag ymatebion yr adran iddynt.

PENDERFYNWYD

3.1 cadarnhau Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) (Cyfyngu ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 15) yn amodol ar y newidiadau a gytunwyd gyda'r aelodau lleol ac a fanylwyd yn 4.3 a 4.4 o grynodeb gweithredol yr adroddiad;

3.2 rhoi gwybod yn ffurfiol i wrthwynebwyr y Gorchymyn arfaethedig am benderfyniad y Cyngor.

_____ _____

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL **DYDDIAD**